**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Jersey ar fodel arfaethedig ar gyfer *Jersey Public Services Ombudsman (JPSO)***

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Jersey ar fodel arfaethedig ar gyfer *Jersey Public Services Ombudsman (JPSO).*

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai) a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rwy'n rhoi fy nghaniatâd i gael fy nyfynnu ac i briodoli'r dyfyniadau imi.

## Cyd-destun

Sefydlwyd fy swyddfa yn wreiddiol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Yn ddiweddarach, diwygiwyd trefniadau fy swyddfa gan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 23 Gorffennaf 2019 ('y Ddeddf 2019'). Mae fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'i seilio ar fy mhrofiad o waith beunyddiol swyddfa ombwdsmon, yn ogystal â'r gwersi a

ddysgwyd wrth ddatblygu'r Ddeddf 2019.

**Adran 1: Cefndir y cynigion**

Rwy'n cytuno'n llwyr y dylid hyrwyddo'r gwasanaeth JPSO newydd. Mae diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus yn broblem sy'n wynebu llawer o gynlluniau ombwdsmon.

I gyflawni'r rôl a ragwelir, rwyf hefyd yn cytuno fod rhaid i JPSO gael digon o gapasiti i ymchwilio i ffeithiau gŵyn benodol. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn manylu ar sut y dylid sicrhau capasiti o'r fath. Hoffwn dynnu sylw at a 19 Deddf 2019 sy'n cadarnhau, at ddibenion ymchwiliad:

- Efallai y byddaf angen i berson yr wyf yn meddwl sy'n gallu rhoi gwybodaeth neu gynhyrchu dogfen sy'n berthnasol i'r ymchwiliad i wneud hynny.
- Mae gennyf yr un pwerau a'r Uchel Lys o ran presenoldeb a holi tystion (gan gynnwys gweinyddu llwon ac ategiadau a holi tystion yn gyffredinol) a dangos dogfennau.

Mae'r adran hon hefyd yn cynnig y dylai JPSO feddu'r pŵer i ystyried y penderfyniad a'r ffordd y cyrhaeddwyd at y penderfyniad - h.y. rhinweddau'r penderfyniad. Ymddengys i mi nad eir ar drywydd y sylw hwn ymhellach yn y ddogfen. O ran cymharu, rwyf wedi fy awdurdodi i ystyried rhinweddau penderfyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol yn unig. Nid yw'n arferol i ombwdsmon weithredu fel corff 'adolygu' drwy ystyried rhinweddau penderfyniadau nad yw'n cynnwys unrhyw dystiolaeth o gamweinyddu.

**Adran 2: Swyddogaethau JPSO**

C2.

Yn fy marn i, mae'r holl swyddogaethau a awgrymwyd yn yr adran hon yn hanfodol ar gyfer gwasanaeth ombwdsmon effeithiol a chyfoes. Un o ddibenion y Ddeddf 2019 oedd cymhwyso fy swyddfa â rhai o'r swyddogaethau hyn. Mae'r Ddeddf yn cyfuno fy swyddogaeth draddodiadol ymatebol wrth ymdrin â chwynion gyda phŵer mwy gweithredol i ymgymryd ag ymchwiliadau ar fy liwt fy hun ac i greu Awdurdod Safonau Cwynion.

Hoffwn amlygu hefyd fod y ddwy swyddogaeth o 'alluogi dysgu gwersi' a *'learning champion'* yn ymddangos yn debyg i'w gilydd a mae modd eu cyfuno er eglurder (yn wir, mae'r ddogfen ymgynghori yn gwneud hynny yn rhywle arall, gweler tudalen 8).

C3.

Mae fy swyddfa, yn unol ag arfer cyffredin ombwdsmon, yn ymchwilio i gwynion yn breifat. Mae hyn yn gwahaniaethu arfer yr ombwdsmon oddi wrth y dull gwrthwynebol a ddefnyddir mewn llysoedd. Ymhellach, rwyf o'r farn y byddai'n groes i egwyddor annibynnol ombwdsmon pe bai JPSO o dan *ddyletswydd* i wrando ar gwynion mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn unig. Os ystyrir yn hanfodol (o gofio'r pryderon ynghylch y lefel isel o ymddiriedaeth yn nhryloywder a didwylledd Llywodraeth Jersey a gydnabyddir yn y ddogfen ymgynghori), gall JPSO gael ei gymhwyso â hawl ddiamod i gynnal gwrandawiadau o'r fath. Gellid arfer y pŵer hwn yn fwy tryloyw drwy ychwanegu gofyniad i JPSO gynhyrchu a chyhoeddi'r egwyddorion sy'n arwain y penderfyniad i gynnal gwrandawiadau o'r fath.

C4

Rwy'n cytuno y dylai JPSO gael gorchwyl i ymchwilio achosion honedig o gamweinyddu neu fethiant gwasanaethu. Mae hyn yn gyson â gorchwyl fy swyddfa. Mae hefyd modd i fy swyddfa ymchwilio i fethiant gan gorff o fewn awdurdodaeth i gynnig gwasanaeth. Fel yr amlinellir uchod, nid yw'r pŵer i gwestiynu rhinweddau penderfyniad a wnaed gan gorff cyhoeddus yn arferol o fewn cynllun ombwdsmon traddodiadol.

C5

Rwy'n cytuno na ddylai JPSO osod baich annheg ar yr achwynydd drwy ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gyflwyno tystiolaeth lawn o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth. Fodd bynnag, hoffwn awgrymu osgoi'r geiriad a ddefnyddiwyd yn gysylltiedig â'r swyddogaeth hon yn ddiweddarach yn y ddogfen ymgynghori, sy'n cyfeirio at JPSO yn ymchwilio 'ar ran' yr achwynydd (t 7). Gall y geiriad hwn awgrymu y bydd JPSO yn gweithredu fel eiriolwr yr achwynydd - sy'n groes i werth ddidueddrwydd allweddol yr ombwdsmon.

C6

Byddwn yn cynghori yn erbyn codi tâl ar y sawl dibreswyl am wasanaethau JPSO. Mae fy ngwasanaeth yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn unol â norm rhyngwladol ar gyfer cynlluniau ombwdsmon a meini prawf aelodaeth y Gymdeithas Ombwdsmon.

Byddwn hefyd yn tynnu eich sylw at ganfyddiadau adroddiad 2018 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n awgrymu bod grwpiau megis ymfudwyr yn

wynebu anghydraddoldebau sylweddol wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus a gofal iechyd yn benodol. Felly, gallant fod angen help gan ombwdsmon uwchlaw pawb. Fodd bynnag, mae'n ffenomen gydnabyddedig y gall y sawl sydd fwyaf mewn angen fod ymysg y rhai sydd lleiaf tebygol o gwyno i'r ombwdsmon (yr hyn a elwir yn 'effaith Matthew'). Yn wir, hoffwn amlygu fy mod eisoes yn derbyn ychydig iawn o gwynion gan bobl nad ydynt yn uniaethu fel Cymreig, Seisnig neu Brydeinig, er nad yw tâl yn rhwystr. Yn fy marn i, gall godi tâl am wasanaethau ombwdsmon waethygu'r heriau y mae'r sawl dibreswyl o bosibl yn eu hwynebu eisoes wrth geisio cyfiawnder gweinyddol.

C7

Gofynnir y ddogfen a ddylai JPSO ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud yn unig â gweithred a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad lle fabwysiadir Taleithiau Jersey gyfraith y JPSO. Er bod datrysiad o'r fath yn ymarferol, mae'n bwysig bod trefniadau trosiannol ar waith i sicrhau cyfiawnder i achwynwyr. Er enghraifft, pan ddiddymwyd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 pedwar cynllun ombwdsmon neilltuol yng Nghymru er mwyn creu fy swyddfa, datganwyd y Ddeddf y byddai:

- unrhyw gŵyn a wnaed neu a gyfeiriwyd at un o'r cynlluniau hyn, ond na phenderfynwyd arnynt cyn dyddiad cychwyn y Ddeddf 2005; neu
- unrhyw gŵyn y gall fod wedi'i gwneud neu ei chyfeirio at un o'r cynlluniau hyn, ac yn ymwneud â'r weithred a gymerwyd gan berson cyn y dyddiad cychwyn,

yn cael eu hystyried o dan y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynlluniau hynny, yn hytrach nag o dan Ddeddf 2005.

Rwy'n cefnogi'r cynnig y dylai JPSO, fel rheol, dim ond ymchwilio i gwynion hyd at 12 mis ar ôl y disgwylir yn rhesymol i achwynwydd fod yn ymwybodol fod ganddo reswm i gwyno. Mae hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau yn fy neddfwriaeth.

Hefyd, mae'r adran hon yn datgan na ddylai JPSO ymchwilio i gŵyn sydd fwy na 5 mlynedd wedi'r weithred sy'n destun y gŵyn. Er bod hi'n dechnegol bosibl cynnal ymchwiliadau o'r fath, byddwn yn rhybuddio y gall treigl amser ei gwneud hi'n anodd iawn i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad at safon ofynnol a disgwyliedig. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r cynnig i JPSO gael disgresiwn o ran digwyddiadau hŷn, yn arbennig os yw'n fater a allai fod yn beryglus a bod diddordeb cyhoeddus yn mynnu ymchwiliad annibynnol.

Rwy’n cefnogi’r cynnig y dylai JPSO, fel rheol, dim ond ymchwilio i gwynion mewn achosion lle mae’r achwynydd wedi dod i ben ar broses gwyno mewnol yr endid sy’n destun ei gŵyn. Mae hyn yn adlewyrchu’r darpariaethau yn fy neddfwriaeth.

Rwy’n cefnogi’r cynnig y dylai JPSO, fel rheol, dim ond ymchwilio i gwynion am faterion sydd wedi arwain at galedi neu anghyfiawnder. Byddai hyn yn adlewyrchu’r darpariaethau yn fy neddfwriaeth. Fodd bynnag, byddwn yn amlygu fod y cyfeiriad at ‘achwynydd’ yn yr adran hon yn gyfyngol heb fod angen, o ystyried y cynigion i JPSO allu ymchwilio ar ei liwt ei hun.

Yn olaf, rwy’n anghytuno y dylai’r Prif Weinidog allu gofyn i JPSO ymgymryd ag ymchwiliadau arbennig, ac y dylai JPSO ystyried ceisiadau o’r fath. Er bod y ddogfen ymgynghori yn sicrhau y byddai JPSO yn cadw disgresiwn ynghylch a ddylid ymchwilio, rwyf o’r farn y gallai darpariaeth debyg danseilio annibyniaeth gyfreithiol a chydnabyddedig ombwdsmon.

C8 – C9

Mae fy Neddf yn fy ngalluogi i ymchwilio i gwynion gan aelodau o’r cyhoedd yn unig.

C10

Nid yw’r mwyafrif o’r swyddogaethau a restrir yn yr adran hon yn disgyn o fewn fy ngorchwyl.

**Adran 3: Canfyddiadau, Argymhellion a Rhwymedïau**

C11 a C12

Byddwn yn cytuno y dylid disgwyl i gorff o fewn awdurdodaeth gydnabod a pharchu canfyddiadau JPSO. O dan fy neddfwriaeth, os rwy’n cadarnhau cwyn a fy mod o’r farn ei bod yn codi materion o ddiddordeb cyhoeddus ehangach, mae gennyf y pŵer i gyhoeddi ‘adroddiad diddordeb cyhoeddus’. Mae’r corff o fewn awdurdodaeth sy’n derbyn adroddiad o’r fath o dan ddyletswydd i’w gyhoeddi (gweler adra 24 Deddf 2019 am fanylion). Yn 2018/19, cyhoeddais 14 adroddiad o’r fath.

Fodd bynnag, nid yw fy argymhellion yn gyfrwymol. Mae hyn yn unol ag arfer ombwdsmon cyffredinol, nad yw’n gosod gorfodaeth. Yn hytrach, defnyddir pŵer cyhoeddusrwydd ac enw da, yn ogystal â dyletswydd cyfraith gyhoeddus corff cyhoeddus i beidio gwrthod argymhellion yn afresymol.

Byddwn yn tynnu eich sylw at ddyfarniad perthnasol R (Bradley) yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau [2008] (gweler crynodeb y dyfarniad yma). Haerwyd y dyfarniad, er nad yw gweinidog wedi'i rwymo i dderbyn canfyddiadau neu argymhellion y Comisiynydd Gweinyddol dros Weinyddiaeth, yn ôl rhesymeg, nid oes modd iddo eu gwrthod heb 'resymau cymhellol'.

Nid yw'r ffaith nad yw fy argymhellion yn gyfrwymol yn arwain at lai o gydymffurfiaeth. O dan a 26 Deddf 2019, ar ôl i gorff o fewn awdurdodaeth dderbyn fy argymhellion, rhaid iddo roi gwybod imi am y camau y mae'n bwriadu eu cynnig i ymateb i'r argymhellion. Rhaid iddo wneud hyn o fewn cyfnod penodol a rhoi gwybod imi am yr amserlen y mae'n bwriadu ei ddilyn o ran cymryd y camau. Os nad wyf yn derbyn hysbysiad o'r fath, neu os nad wyf yn fodlon â'r cam a gynigiwyd, efallai y byddaf yn cyhoeddi adroddiad arbennig yn ymwneud â'r mater. Gall yr Ombwdsmon gyhoeddi'r adroddiad hwn a rhaid i'r awdurdod rhestredig dan sylw ad-dalu'r Ombwdsmon am y costau cyhoeddi. Ers dod i'r swydd yn 2014, dim ond 2 adroddiad o'r fath rwyf wedi'u cyhoeddi yn unig.

Mae fy mhwerau yn gyson â phwerau cynllun ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus traddodiadol. Mae'r rhain yn dibynnu yn gryf ar atebolrwydd cyhoeddus a'r gallu i naill ai rhoi cyhoeddusrwydd i fater neu, mewn rai amgylchiadau, gosod y mater gerbron Cynulliad Cymru. Fel y nodir uchod, mae hyn yn fecanwaith effeithiol wrth ymdrin â chyrff cyhoeddus (mewn cyferbyniad â rhai preifat).

C13

Rwy'n cytuno y dylid cynllun ombwdsmon da roi llwybr i achwynwyr a chyrff o fewn awdurdodaeth i adolygu penderfyniadau ombwdsmyn. Mae gennyf broses mewnol tebyg ar waith ac mae modd herio fy mhenderfyniad drwy adolygiad barnwrol. Yr Ombwdsmon yw canolwr terfynol penderfyniadau, ac rwy'n cytuno ei bod hi'n bwysig mai dim ond y Llysoedd sy'n gallu eu gwrthdroi.

C14

Fel y dywedir uchod, rwyf yn erbyn y syniad y dylai penderfyniadau'r ombwdsmon fod yn gyfrwymol. Fel y nodir uchod, mae atebolrwydd cyhoeddus yn bwysig o ran cynnig gwasanaeth cyhoeddus, ac felly rwy'n cytuno ei bod hi'n briodol i Daleithiau Jersey ystyried materion mewn achosion lle gall Gweinidog anghytuno ag argymhelliad gan JPSO (gweler C11 a 12 uchod).

C15

Os rwy'n cyhoeddi adroddiad arbennig (gweler C11 a 12 uchod) yn ymwneud â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n ofynnol i'r cyrff osod copiau o'r adroddiadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rwyf o'r farn bod y drefn hon yn cyflawni'r swyddogaeth a ragwelir o Ddatganiad gan Wenidog Taleithiau Jersey.

C16

Mewn egwyddor, fel yr uchod.

C17

Dylai JPSO allu cynnig yr holl rhwymedïau a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori. Hefyd, dylai'r swyddfa fod â'r rhyddid i argymell rhwymedïau eraill, fel y mae'n eu hystyried yn briodol.

**Adran 4: Egwyddorion awdurdodaeth a dylunio**

C18 - 23

Rwy'n cytuno yn gyffredinol â'r amrywiaeth o gyrff a gynigiwyd yn Adran 4 i'w cynnwys yn awdurdodaeth JPSO. Nid wyf ddigon ymwybodol o'r berthynas weinyddol rhwng Eglwys a Phlwyfi Jersey a, gan nad yw'n fater o fewn fy awdurdodaeth, ni allaf roi sylwadau.

Rwy'n cefnogi'r cynnig o fabwysiadu 'dilyn yr arian' fel y brif egwyddor dylunio sy'n diffinio endidau o fewn awdurdodaeth JPSO. Roedd hon hefyd yn un o'r egwyddorion craidd wrth wraidd y galwadau i ddiwygio swyddfa OGCC gennyf i a fy rhagflaenydd. Rhoesom bwyslais cyson ar y ffaith y dylai awdurdodaeth ombwdsmon ganolbwyntio ar y dinesydd yn hytrach na sectorau penodol neu drefniadau ariannu.

**Adran 5: Darparwyr gofal iechyd**

C24

Yn fy marn i, dylid cynnwys darparwyr gofal iechyd yng ngorchwyl JPSO o'r cychwyn cyntaf. Yn 2018/19, roedd 41% o'r cwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa yn ymwneud ag iechyd ac rwy'n ymwybodol y byddai'r canran hwn yn uwch ar gyfer rhai ombwdsmyn gwasanaethau cyhoeddus eraill y DU.

Os penderfynir deddfu awdurdodaeth JPSO dros ofal iechyd drwy broses gam wrth gam, byddai'n ddefnyddiol, yn fy marn i, hebrwng y ddeddfwriaeth ag amserlen benodol ar gyfer y broses hon.

C25

Mae fy mhrofiad yn fy arwain i gredu y byddai’n anodd yn ymarferol i wahaniaethu penderfyniadau clinigol oddi wrth fathau eraill o weinyddu gofal iechyd a methiannau gwasanaeth. Mae’r pŵer i gwestiynu barn broffesiynol o fewn gosodiad clinigol yn hanfodol i sicrhau bod claf wedi'i drin yn deg a phriodol. Felly, dylid gorchwyl JPSO o ran gofal iechyd gynnwys cwynion yn ymwneud â phenderfyniadau clinigol; yn ogystal â materion sy’n ymwneud â darparu gwasanaeth.

**Adran 6: Cyrff gwarchod a Rheolyddion eraill**

C26

Ar y cyfan, rwy’n cytuno bod y berthynas rhwng JPSO a chyrff gwarchod a rheolyddion eraill yn Jersey yn debygol o gynnwys y gweithgareddau a ragwelwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae’r cynigion i’r cyrff o fewn awdurdodaeth y JPSO arolygu’r broses ymdrin â chwynion yn ymddangos yn debyg i’r darpariaethau yn fy neddfwriaeth, sy’n:

- gosod dyletswydd ar gyrff o fewn fy awdurdodaeth i gyflwyno eu gweithdrefnau ymdrin â chwynion i fy swyddfa, os cyfarwyddyd hynny;
- rhoi’r pŵer imi ddatgan nad yw gweithdrefnau ymdrin â chwynion yr awdurdod yn cydymffurfio â’r model ar gyfer gweithdrefnau o’r fath a bennir gan fy swyddfa.

Fodd bynnag, nid yw’n eglur imi pam bod y ddogfen ymgynghori yn cynnig y dylid galluogi JPSO i weithio ar y cyd â’r Comisiynydd Plant yn unig ac i rannu gwybodaeth â’r Comisiynydd Safonau, y Rheolwr a’r Archwilydd yn unig. Ar ben hynny, yn ôl y ddogfen, dim ond y ddau gorff hyn a fydd wedi’u hawdurdodi i gyfeirio cwynion at JPSO.

O dan Ddeddf 2019, os rwy’n penderfynu bod mater a allai fod yn destun ymchwil fy swyddfa hefyd o bosibl yn fater ymchwilio i gorff arall, mae’n ofynnol imi:

- ymgynghori ag ombwdsmyn eraill mewn mannau eraill o’r DU
- hysbysu Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiynwyr yng Nghymru a rhai cyrff statudol eraill yng Nghymru, ac ymgynghori â hwy.

Ar ôl ymgynghori, rwyf wedi fy awdurdodi i gydweithredu ac i weithio ar y cyd â’r cyrff hyn, yn ôl y gofyn.

Yn fy marn i, byddai o fudd mawr pe galluogir JPSO o'r cychwyn cyntaf i ymgynghori, cydweithredu ac i weithio ar y cyd (pe bernid bod hynny'n angenrheidiol) â'r holl gyrff statudol sydd â dyletswydd dros ymdrin â chwynion, rheoli ac archwilio sectorau sy'n gysylltiedig â gorchwyl JPSO (hyd yn oed os profir bod gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt yn gyfyngedig o ran safbwynt ymarferol). Byddai hefyd yn fuddiol a chyson pe galluogir y cyrff hyn i i ymgynghori, cydweithredu a gweithio ar y cyd â JPSO, ar sail ddwyochrog.

Mae'n anodd mynegi barn fanylach gan fod gorchwyl JPSO yn aneglur ar hyn o bryd. Er enghraifft, ni eglurir eto pa gyrff gwarchod a rheolyddion Jersey a fydd yn atebol i JPSO. O fy mhrofiad, nid yw perthnasoedd atebolrwydd o'r fath o reidrwydd yn rhwystro cydweithredu. Fodd bynnag, cefais hi'n ddefnyddiol i sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth â rhai o'r cyrff er mwyn egluro'r berthynas (gweler y rhestr gyfredol o drefniadau o'r fath yma).

Mae'r adran hon hefyd yn ystyried rhoi'r awdurdod i rai o'r cyrff i 'gyfeirio' cwynion at yr Ombwdsmon. Os yr hyn a olygir yw cyfeirio (*signposting)*, rwy'n gefnogol iawn o'r cynnig y dylid creu trefniadau cyfeirio effeithiol rhwng JPSO a chyrff gwarchod a thrinwyr cwynion eraill yn Jersey. Fodd bynnag, o fy mhrofiad i, byddwn yn amlygu nad oes angen cynnig cyfeirio (*signposting)* yn benodol yn y ddeddfwriaeth, a gellir dibynnu yn lle ar gyfathrebu da ac ymgysylltu â chyrff statudol eraill.

**Adran 7: Trefniadau strwythuro a llywodraethu**

C27

Mae'n hanfodol bod Ombwdsmon yn hollol annibynnol ac yn atebol am ei benderfyniadau, a'i fod hefyd yn cael ei weld fel hyn. Am hynny, mae Deddf OGCC 2019 yn manylu fy mod yn gorfforaeth undyn. Fodd bynnag, sylwer bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau diogelu i sicrhau fy mod gennyf linellau atebolrwydd clir sy'n uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rwyf o'r farn bod posibl i strwythur Bwrdd gymylu ffiniau atebolrwydd a pheryglu diffyg didwylledd a thryloywder pe mabwysiadwyd gan gynllun ombwdsmon.

C28

Mae'r ddogfen ymgynghori yn datgan bod nifer y staff arfaethedig ar gyfer y swyddfa newydd wedi'i seilio ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Rwy'n nodi bod:

- adroddiad 2018 Comisiwn y Gyfraith yn argymell bod gweithlu JPSO, yn ogystal â'r ombwdsmon, yn cynnwys dau weithiwr achos, swyddog cyfathrebu rhan-amser a chynorthwyydd gweithredol;
- adroddiad 2017 Comisiwn y Gyfraith yn rhestru sawl cynllun ombwdsmon o fewn awdurdodaeth lai na Jersey sydd â mwy o staff (e.e. Ombwdsmon Gibraltar a wasanaethir poblogaeth o 30,000 gyda 8 aelodau o staff; neu Ombwdsmon Bermwda a wasanaethir poblogaeth o 65,000 gyda 5 aelod o staff).

Mae'r uchod yn awgrymu bod cynigion staff JPSO yn fwy gwylaidd nag argymhellion Comisiwn y Gyfraith a rhai cynlluniau ombwdsmon eraill o fewn awdurdodaeth lai, ar sail maint poblogaeth Jersey yn unig (ychydig dros 100,00).

Yn y bôn, fodd bynnag, mae'n anodd asesu a yw'r lefelau staffio hyn yn ddigon gan na allwn ragweld llwyth gwaith JPSO. Ar ddeall y byddai JPSO yn cael ei ariannu gan Daleithiau Jersey, dewis y Taleithiau fyddai diwygio'r ariannu fel bo angen, er mwyn galluogi JPSO i weithio'n effeithiol.

Ymddengys hefyd, o gofio'r bwriad honedig i wneud JPSO yn weladwy ac i'w hyrwyddo'n weithredol (adran 1), gall cynnwys swyddog cyfathrebu o'r cychwyn cyntaf fod yn ochelgar.

**Sylwadau eraill**

Rwy'n croesawu'r cynigion i sicrhau mynediad uniongyrchol at JPSO (h.y nid drwy'r *States Greffe*, fel y Bwrdd Cwynion cyfredol) (t 7).

**Sylwadau terfynol**

Hyderaf y byddwch yn gweld fy sylwadau'n ddefnyddiol. Mae croeso i chi gysylltu â Ania Rolewska (ania.rolewska@ombudsman.wales), Pennaeth Polisi fy swyddfa os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum.



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Hydref 2019**

**********************************************************************************